



CYNORTHWYDD CYNLLUNIO, PERFFORMIAD A RISG

Adran Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau

GRADD 6: £20,903 - £22,183 y flwyddyn

(A fydddech cystal â nodi fod pob cyflog yn amodol ar Werthusiad Swydd)

Dros dro tan Chwefror 2022

37 awr yr wythnos

Mae'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Gwelwch y Fanyleb Person am fanylion o lefel y Gymraeg sy'n ofynnol.

Cododd y swydd wag uchod o fewn yr Adran Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau a leolir ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn adrodd i'r Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Risg ac yn gyfrifol am goladu a dilysu gwybodaeth gan nifer o ffynonellau, gan ddefnyddio cyfres o systemau a phrosesau TGCh.

Bydd gan y deilydd swydd gyfrifoldeb dros ddarparu cyfarwyddyd i staff i sicrhau mewnbynnu cywir ac amserol o wybodaeth i'n System Gwybodaeth Rheoli Busnes, yn unol â'n fframweithiau rheoli perfformiad a rheoli risg mwyaf diweddar. Bydd y rôl yn cefnogi pob swyddogaeth tîm allweddol i sicrhau llif ansoddol ac amserol o wybodaeth, y tu fewn a thu allan i'r sefydliad.

Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, Swydd Ddisgrifiad a Manyleb Person o dudalen Gweithio i Ni /Swyddi Gwag Diweddaraf ar ein gwefan ar www.decymru-tan.gov.uk

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y rôl swydd, fe'ch gwahoddir i gysylltu â Rheolwr yr Uned Ystadegol. Jon Carter drwy law e-bost: j-carter@decymru-tan.gov.uk

Y dyddiad cau i dderbyn ffurflenni cais yw **12:00, canol dydd, 03/05/2021**. Mae'r dyddiad ar gyfer y cam dethol eto i'w gadarnhau. Dylid dychwelyd ceisiadau gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Adnoddau, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX neu drwy law e-bost: personel@decymru-tan.gov.uk

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

Rydym yn sefydliad sy'n gyfeillgar i'r teulu ac mae system gweithio hyblyg mewn grym.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

